# Treth bop – cosb ar bobl dlawd



Mae Jamie Oliver wedi bod wrthi unwaith eto, ar grwsâd i wella arferion bwyta pobl Prydain. Y targed y tro hwn yw'r sawl sy'n yfed diodydd pop.

Yn ddyn cyfoethog iawn, diolch i obsesiwn dosbarth canol Prydain gyda rhaglenni coginio ac i'w dai bwyta drudfawr, mae'n hawdd i'r cogydd o Gocni gondemnio diodydd pop am fod yn llawn siwgr ac am wneud pobl yr ynysoedd yn dew.

Hawdd iddo fe hefyd awgrymu mai'r hyn ddylid ei wneud yw codi pris diodydd o'r fath, a'u gwneud yn rhy ddrud i'w prynu.

Mae ganddo bwynt, wrth gwrs. Mae gormod ohonom ni yn cario gormod o bwysau, ac mae gormod o bwysau'n aml iawn yn arwain at broblemau iechyd. Ac mae mwy o blant nag erioed yn ordew yn ôl pob tebyg. Allai neb ddadlau bod hon yn sefyllfa iach.

Ond ai codi pris diodydd o'r fath yw'r ateb? Mae ystadegau'n dangos yn glir mai pobl yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y gwledydd hyn sy'n gwario fwyaf ar ddiodydd pop. Cosb ar bobl dlotaf cymdeithas felly yw'r 'dreth' ychwanegol mae Jamie Oliver a'i fath yn ei hawgrymu.

Ac ydy codi 20 ceiniog yn ychwanegol ar botel o bop mewn gwirionedd yn mynd i rwystro pobl rhag prynu diodydd o'r fath? Go brin! Yr unig ganlyniad i'r dreth hon fyddai bod gan y rhieni tlotaf 20c yn llai i wario ar fwydydd iachach.

Mae Plaid Cymru, wrth gwrs, wrth ei bodd bod Jamie Oliver wedi penderfynu cefnogi'r ymgyrch i godi pris diodydd pop. Mae wedi bod yn un o brif bolisïau'r blaid honno ers talwm, wedi'r cyfan. Mae hynny, ynddo'i hun, yn rhyfedd. Yn blaid sy'n ymfalchïo yn ei chefnogaeth i bobl dlotaf cymdeithas, chwithig yw ei gweld yn arddel polisi fyddai'n cosbi'r bobl hynny'n fwy nag unrhyw garfan arall o'r boblogaeth.

Chwithig hefyd yw penderfyniad y blaid i gyhoeddi y byddai'r arian a godwyd o'r dreth hon yn mynd at y Gwasanaeth Iechyd – gan awgrymu felly mai codi arian yn hytrach nag argyhoeddi pobl i wario llai ar ddiodydd pop yw ei nod.

Waeth beth yw nod Plaid Cymru a Jamie Oliver, rhyw feddwl ydw i fod gwell ffyrdd o godi arian a thecach ffyrdd o hybu iechyd.

Cris Dafis

**Ffynhonnell**

*Golwg* (5 Tachwedd 2015, cyfrol 28, rhif 10)

**Darllen**

Ar ôl darllen y darn 'Treth bop' yn ofalus, atebwch y cwestiynau a ganlyn.

1. Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu'n anghywir drwy roi ✓ yn y golofn briodol.

*(Adalw gwybodaeth, nodi gogwydd)*

| Cwestiwn | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Pobl dlawd sy'n prynu diodydd pop fynychaf. | | |
| Mae Jamie Oliver am godi treth ar bop er mwyn gwella iechyd pawb yn ynysoedd Prydain. | | |
| Mae codi treth ar bop yn syniad hollol newydd. | | |
| Yn ôl Cris Dafis, nid pobl dlawd sy'n gwylio rhaglenni coginio. | | |
| Mae Cris Dafis yn cytuno ag ymgyrch Jamie Oliver. | | |

2. Beth yw prif fwriad y darn 'Treth bop'? Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

*(Nodi pwrpas testun)*

a. cyflwyno gwybodaeth am beryglon siwgr ☐
b. annog pobl dlawd i osgoi siwgr ☐
c. mynegi barn am yr ymgyrch i godi pris pop ☐
ch. awgrymu sut i wella'r Gwasanaeth Iechyd ☐

3. Rhowch ✓ yn y blwch priodol.
Y gair mwyaf addas i'w roi yn lle'r gair 'argyhoeddi' ym mharagraff 8 fyddai:

*(Aralleirio)*

a. perswadio ☐
b. bygwth ☐
c. twyllo ☐
ch. gorfodi ☐

4. Ydy Cris Dafis yn cytuno neu'n anghytuno â safbwynt Jamie Oliver? Cofiwch ystyried y darn yn gyfan a defnyddio dystiolaeth o'r darn i gefnogi eich ateb.

*(Nodi gogwydd, dod i gasgliad)*

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

______________________________________________________________________

5. Pam mae Cris Dafis yn beirniadu Plaid Cymru? Rhowch o leiaf ddau reswm gan gyfeirio at rannau o'r testun wrth ateb.

*(Mynd dan groen testun)*

6. Enwch ffurf y darn hwn a disgrifiwch dair o nodweddion y ffurf. Eglurwch a yw'r awdur wedi llwyddo i ddefnyddio'r ffurf yn effeithiol gan gyfeirio'n aml at rannau o'r testun wrth ateb.

*(Nodi pwrpas testun)*

**Llafaredd**

Gwaith grŵp
Mynegi barn

7. Mewn grwpiau o dri trafodwch y safbwyntiau hyn.
   (i) Mae angen pobl enwog fel Jamie Oliver i dynnu sylw at arferion bwyta.
   (ii) Pa hawl sydd gan Jamie Oliver i feirniadu arferion bwyta pobl?
   (iii) Dylai pawb fod yn rhydd i fwyta beth fynnon nhw. Gwaith y llywodraeth yw poeni am y Gwasanaeth Iechyd.
   (iv) Mae'n iawn i Cris Dafis fod yn negyddol am yr ymgyrch yn erbyn siwgr ond pa 'well ffyrdd o godi arian a thecach ffyrdd o hybu iechyd' sydd?
   (v) Byddai codi treth ar bop yn annheg.

Dylech drafod pob safbwynt am tua 3 munud.

**Ysgrifennu**

8. Ysgrifennwch lythyr at olygydd papur *Golwg* yn cytuno neu'n anghytuno â barn Cris Dafis am godi treth ar bop.

   Cyn dechrau

   - dylech wneud ymchwil drwy ddarllen yr hyn mae Jamie Oliver wedi ei ddweud am beryglon siwgr a chasglu tystiolaeth. Mae digon o wybodaeth ar y we.
   - lluniwch gynllun er mwyn datblygu un pwynt ym mhob paragraff.
   - adolygwch ffurf y llythyr a iaith mynegi barn.